# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22.04.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W.Tudor Owen (Cadeirydd); Ieuan Roberts, Gwilym Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Ceridwen Pritchard (Swyddog Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran The Greek Taverna:** Mr George Politis (Deilydd y drwydded)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr June a Keith Marshall (aelodau lleol)

**1. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED EIDDO THE GREEK TAVERNA, 12-14 FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu gan y Swyddog Trwyddedu, yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded The Greek Taverna, 12-14 Ffordd Caergybi, Bangor yn dilyn eu pryderon am y safle, ond yn dilyn derbyn y cais, daeth yr heddlu i gytundeb gyda deilydd y drwydded. Cyfeiriodd at lythyr a dderbyniwyd gan gyfreithiwr deilydd y drwydded yn derbyn y cytundeb ar ei ran. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan yr Adran Safonau Masnach. Derbyniwyd llythyr gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cadarnhau bod y diffygion y manylwyd arnynt yn eu llythyr dyddiedig 24 Mawrth 2010 erbyn hyn wedi eu datrys ac nid oes ganddynt sylwadau pellach i'w cyflwyno.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr Ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Ar ran yr heddlu, cyflwynodd Mr Ian Williams, y Cydlynydd Trwyddedu adroddiad yn manylu ar y digwyddiadau y cyfeiriwyd atynt o fewn y cais. Nododd y cynhaliwyd tri prawf prynu yn yr eiddo gan ddefnyddio merch 15 oed pryd y gwerthwyd alcohol iddi ar bob un o'r achlysuron hyn. Yn arferol, mae methu tri prawf yn arwain at adolygiad llawn o drwydded. Fodd bynnag, 'roedd yr heddlu o'r farn, wrth ymgeisio am yr adolygiad hwnnw, y byddai cais am amodau goruchwylwyr drws yn cael ei wneud, felly os byddai deilydd y drwydded yn fodlon amrywio'r drwydded, gellid osgoi adolygiad llawn. I'r diben hwn, mynychodd deilydd y drwydded gyfarfod adolygu yn Awst 2009 pryd y cytunodd i argymhelliad yr heddlu i gael goruchwylwyr drws.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Trwyddedu at lythyr a dderbyniodd Adran Drwyddedu'r Cyngor, gan gyfreithiwr deilydd y drwydded yn gofyn am lacio'r amodau y gofynnwyd amdanynt a chyfyngu'r staff drws i'r nosweithiau hynny lle 'roedd cerddoriaeth fyw yn cael ei berfformio. Ymgynghorwyd â'r heddlu ond nid oeddynt yn fodlon llacio'r amodau.

Tynnodd sylw at ddigwyddiad yn yr eiddo yn Chwefror 2009 pryd yr ymosodwyd ar unigolyn. Derbyniodd yr heddlu ddatganiad gan aelod o'r staff o'r hyn a ddigwyddodd pryd y nododd mai dim ond y hi ac aelod benywaidd arall o'r staff oedd yn gweithio yn y bar ar y pryd. Nododd hefyd bod yr eiddo wedi bod yn brysurach na'r arfer ar y diwrnod hwnnw o ganlyniad i'r gêm rygbi rhyngwladol. 'Roedd yr heddlu o'r farn na fyddai'r achos hwn o drais wedi digwydd petai'r eiddo'n cyflogi staff drws.

Nododd bod yr amodau y gwnaed cais amdanynt gan yr heddlu yn rhoddi hyblygrwydd o ran i ba raddau y cânt eu gweithredu. 'Roedd o'r farn, wrth ystyried yr amodau, y dylid rhoddi ystyriaeth i'r diffyg teledu cylch cyfyng ac i'r diffyg hwnnw achosi problemau i'r heddlu wrth iddynt ymchwilio i'r achos o drais. Er bod troseddwr dan amheuaeth adeg y cais hwn, byddai'r ymchwiliad wedi gallu digwydd yn llawer cyflymach petai'r digwyddiad wedi cael ei recordio ar gamera. Efallai na fyddai'r ymosodiad wedi digwydd o gwbl petai staff drws sydd wedi eu hyfforddi'n iawn yn cael eu cyflogi yn yr eiddo. I'r perwyl hwn argymhellodd bod unigolyn o'r fath yn cael ei gyflogi yn yr eiddo o 20.00 awr ymlaen hyd at amser cau y busnes bob nos Wener a nos Sadwrn, sef Opsiwn 3. Trafodwyd yr amodau gyda deilydd y drwydded ac 'roedd yn cytuno i'w gweithredu. Yn wyneb y cytundeb hwn, 'roedd yr heddlu'n tynnu'n ôl y cais i atal y drwydded.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded a chyflwynwyd y sylwadau canlynol:

- Tybed a fyddai'n bosibl cyflogi goruchwylwyr yn y drws ar adegau eraill megis Gwyliau Banc, Nadolig a Chalan Gaeaf.
- Bod gwerthu alcohol i unigolion dan oed yn fater difrifol ac y dylid sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto.

Ymatebodd deilydd y drwydded i rai o'r pwyntiau o godwyd sef –

- Y gosodir y TCC yn y clôs ac hefyd yn ardal y bar. Disgwylir yr ymgymerir â'r gwaith hwn yn ystod y bythefnos nesaf.
- Y gwerthir alcohol gyda bwyd yn unig ar y llawr cyntaf
- Bod ardal y bar yn cael ei fonitro'n rheolaidd
- Y cynhelir cyfarfodydd gyda'r staff i sicrhau na werthir alcohol i unigolion dan oed.
- Yn gyffredinol mae Gwyliau Banc yn gallu bod yn ddistaw ac oherwydd hynny teimlai nad oes angen cyflogi goruchwylwyr yn y drws.
- Bod yr eiddo'n aelod o gynllun Gwarchod Tafarndai

Gadawodd deilydd y drwydded, cynrychiolydd yr Heddlu a'r Swyddog Trwyddedu y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus

Cytunwyd i roi cyfle i ddeilydd y drwydded ddangos gwelliant dan yr amodau diwygiedig, gan rybuddio y byddai unrhyw dystiolaeth o ddigwyddiadau cyffelyb yn y dyfodol yn arwain at y posibilrwydd o ystyried atal y drwydded.

**PENDERFYNWYD addasu amodau'r drwydded drwy ychwanegu'r amodau canlynol:**
**a) Bydd unrhyw unigolyn sy'n arfer gweithgaredd diogelwch (fel y'i diffinnir ym mharagraff 2(1)(a) o atodlen 2 o Ddeddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001) wedi cael ei**

**drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Bydd unigolyn o'r fath yn cael ei gyflogi yn yr eiddo o 20.00 awr ymlaen hyd at amser cau y busnes bob nos Wener a nos Sadwrn.**
**b) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os yn berthnasol). Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol. Wedi cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol.**
**c) Teledu cylch cyfyng digidol i wylio pob ardal sy'n agored i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa (ac eithrio tu mewn i'r toiledau). Dylid cadw recordiau TCC am 31 diwrnod a'u rhoddi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai'n bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Bangor) cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**
**(Nodwyd y dylai'r Heddlu ymweld â'r eiddo ar ôl i'r TCC gael ei osod i weld os ydynt wedi eu gosod yn y mannau cywir).**

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai llythyr yn cael ei anfon at bawb a gymerodd ran yn y cyfarfod o fewn 5 diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-Bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'r hawl i apelio yn erbyn y dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30pm a daeth i ben am 3.30pm